**Edwina Hart AM MBE**
***Minister for Social Justice and Regeneration***
***Weinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio***

Our ref: MB/EH/0151/06
Your ref:

Aelodau'r Cynulliad

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cardiff Bay
Cardiff CF99 1NA
Switchboard: 029 2082 5111
Fax: 029 2089 8131
Email: ps.edwina.hart@wales.gsi.gov.uk

Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA
Switsfwrdd: 029 2082 5111
Ffacs: 029 2089 8131
Ebost: ps.edwina.hart@wales.gsi.gov.uk

16 Mawrth 2007

Annwyl Pawb,

**DIOGELU BLAENDALIADAU TENANTIAETH: I DDILYN Y DRAFODAETH YN Y CYFARFOD LLAWN AR 6 CHWEFROR 2007**

Yn ystod y drafodaeth ar y tri darn o ddeddfwriaeth sy'n gysylltiedig â diogleu blaendaliadau tenantiaeth ar 6 Chwefror, cododd Mick Bates AC nifer o faterion yn gysylltiedig â phennu cyfraddau llog ar flaendaliadau a chytunais i wneud mwy o ymholiadau.

Roedd y mater cyntaf yn gysylltiedig â'r cyfradd llog a fyddai'n daladwy wrth ddychwelyd unrhyw flaendaliadau gyda thenantiaeth cyfnod byr. Bydd y gyfradd llog ar flaendaliadau yn cael ei phennu trwy is-ddeddfwriaeth sy'n cael ei gwneud ar y cyd gan y Cynulliad a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol. Mae'r gyfradd llog wedi cael ei chyfrifo yn seiliedig ar swm y blaendaliadau a ragdybir yn y sector rhentu preifat, sydd ar gael o ffynonellau megis y *Survey of English Housing* a'r wybodaeth ariannol fanwl sy'n cael ei chynnwys yn y dogfennau tendr a gyflwnir gan y rhai hynny sy'n darparu cynlluniau yn ystod y broses gaffael. Mae'r cyfraddau wedi cael eu gosod ar lefelau sy'n sicrhau dilysrwydd ariannol y cynllun yn ystod cyfnod y contract ac maent yn cadw unrhyw risg ariannol posibl i'r Cynulliad a'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol i'r lleiaf os bydd cyfraddau llog y farchnad yn gostwng neu os bydd symiau'r blaendaliadau yn is na'r disgwyl. Hefyd, bydd y gyfradd llog sy'n cael ei gosod yn yr Is-offeryn yn cael ei hadolygu pob blwyddyn, a gellir ei hail-osod ar ddisgresiwn yr Awdurdod, yn seiliedig ar aelodaeth a pherfformiad gwirioneddol y cynllun.

Yr ail ymrwymiad oedd rhoi enghreifftiau o'r cynlluniau hyn sydd wedi cael eu cynnal yn llwyddiannus mewn mannau eraill. Nid yw llog yn daladwy ond ar flaendaliadau sy'n cael eu cadw yn y cynllun gwarchodol o'r enw y Gwasanaeth Diogleu Blaendaliadau (DPS). Bydd hwn yn cael ei redeg gan Computershare Investor Services plc, gyda Sefydliad Siartredig y Cymrododdwyr yn darparu'r Gwasanaeth Amgen ar gyfer Datrys Anghydfodau (ADR).

Mae Computershare wedi rheoli cynllun blaendaliadau tenantiaeth gwarchodol Talaith Fictoria yn Awstralia am yr wyth mlynedd diwethaf.